**Dyddiad:** **Dydd Mercher 22 Ionawr 2003**

**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol**

**Teitl:** **Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru 2001/2002**
**Adroddiad y Prif Arolygydd: Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru**

## Diben

1. Cyflwyno Adroddiad y Prif Arolygydd ar gyfer 2001/2002 i'r Pwyllgor ar berfformiad y gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru a gwaith Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGCC).

2. Rhoi cyfle i drafod y prif themâu sy'n codi ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol a'r Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru.

## Crynodeb ac Argymhellion

3. Nodi a rhoi sylwadau ar adroddiad Prif Arolygydd AGCC, "Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru 2001-2002".

## Y Cefndir

## A. ADRODDIAD Y PRIF AROLYGYDD: GWASANAETHAU CYMDEITHASOL YNG NGHYMRU 2001/2002

## Yr Adroddiad

4. Atodir Adroddiad y Prif Arolygydd ar gyfer 2001/2002 yn 'dogfen 1'. Mae'r adroddiad yn cael ei gyhoeddi heddiw yn ddwyieithog a bydd yn cael ei ddosbarthu'n eang.

5. Mae'r adroddiad yn tanlinellu'r angen am welliant. Mae'n disgrifio rhan AGCC mewn gwaith ar wasanaethau cymdeithasol ac yn disgrifio'i fframwaith gwerthuso newydd sy'n gysylltiedig â'i waith ar reoli perfformiad. Mae'n rhoi adroddiad ar waith AGCC o ran gwerthuso a gwella gwasanaethau cymdeithasol ac yn gosod hyn yng nghyd-destun ehangach y datblygiadau mewn gwasanaethau cymdeithasol. Mae'n canolbwyntio ar yr angen i wella arweinyddiaeth a pherfformiad mewn gwasanaethau cymdeithasol a'r camau sy'n cael eu cymryd i wneud hyn gan gynnwys:

- gwella ansawdd y gweithlu

- codi safonau trwy waith ar reoli perfformiad
- delio ag ansawdd trwy arolygiadau
- gwella gwasanaethau i blant ac oedolion trwy wella:
    - asesiadau a rheoli gofal
    - dulliau o amddiffyn plant ac oedolion bregus
    - cynllunio a chomisiynu gwasanaethau

6. Y bennod gyntaf yw trosolwg y Prif Arolygydd sy'n cyfeirio at yr angen i weld mwy o dystiolaeth bod enghreifftiau o arferion da yn cael eu datblygu er mwyn creu seilwaith cryfach o wasanaethau ar draws yr awdurdod ac os bydd awdurdodau yn dysgu wrth ei gilydd mewn modd systematig. Mae'r adroddiad felly am geisio agor trafodaeth i nodi beth yn fwy y gellir ei wneud yng Nghymru i gryfhau dysgu rhanedig a chydweithio ar draws awdurdodau er mwyn sicrhau'r gwelliannau sy'n angenrheidiol i'r gwasanaeth. Mae'n dadlau y dylai'r 'prif garfannau' ddod at ei gilydd i weld pa drefniadau sydd angen eu gwneud er mwyn cyflawni hyn. Yn y bennod hon rwyf hefyd yn cyfeirio at rôl hanfodol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ac rwy'n nodi fy safbwnyt ynghylch y cyfrifoldebau craidd y dylai'r Cyfarfwyddwr fod yn atebol amdanynt. Mae penodau dilynol yn delio â'r agenda ansawdd, arolygiadau a gwaith datblygu ar gyfer oedolion a phlant.

7. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi'r tueddiadau allweddol mewn gwasanaethau cymdeithasol ac amrywiadau mewn perfformiad rhwng awdurdodau fel a ganlyn:

- lefelau cymhwyster gwell o fewn y gweithlu i'r rhai sy'n cael eu cyflogi gan yr awdurdodau lleol. Ymhlith holl staff y gwasanaethau cymdeithasol fe gododd y ganran sydd â chymwysterau o 19% i 28% rhwng 1999 a 2001. Mae'r gwelliant yn arbennig o amlwg mewn meysydd oedd yn draddodiadol heb lawer o staff cymwysedig megis gofal preswyl, gofal dydd a gofal yn y cartref.
- amrywiad yn ansawdd y gwasanaethau ledled Cymru fel y'i hamlygir trwy arolygiadau ac adolygiadau ar y cyd: roedd arolygiadau gwasanaethau amddiffyn plant yn adlewyrchu problemau parhaus o ran rheoli sefyllfaoedd lle'r oedd yr angen yn llai pwysig neu'n llai amlwg.
- amrywiad mewn perfformiad o ran sicrhau cydbwysedd effeithiol y gofal mewn gwasanaethau ar gyfer oedolion ac yn enwedig pobl hyn: roedd yn ymddangos bod rhai awdurdodau yn cydbwyso perfformiad yn well nag eraill: mae hyn yn tanlinellu'r angen am strategaethau comisiynu a rheoli effeithiol sy'n cael eu datblygu mewn partneriaeth â iechyd.
- amrywiad nodedig mewn perfformiad mewn nifer o feysydd sy'n ymwneud â gwasanaethau ar gyfer plant gan gynnwys gwasanaethau lleoli teulu, mabwysiadu ac amddiffyn plant (roedd rhai awdurdodau yn gwneud yn eithriadol o dda o ran adolygiadau tra nad oedd eraill ond yn cwblhau 25% o'r targed);
- amrywiad sylweddol mewn cyllidebau gwasanaethau cymdeithasol gyda'r rhai yn yr awdurdodau sy'n gwario fwyaf bron yn dyblu cyllidebau'r rhai yn yr awdurdodau sy'n gwario lleiaf. Mae'n amlwg bod yr amrywiad yn gysylltiedig, i ryw raddau, ag angen ond bydd AGCC yn edrych fwyfwy ar amrywiadau mewn gwariant a pherfformiad fel rhan o'i gwaith gwerthuso er mwyn gallu gwella a gwneud y mwyaf o fanteision buddsoddi mewn gwasanaethau.

**Cydymffurfio**

8. Mae gwaith yr Arolygiaeth yn cael ei gynnal - ac mae adroddaiad y Prif Arolygydd wedi'i gyhoeddi - o dan y pwerau yn Adran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970. Mae'r pwerau hyn wedi cael eu trosglwyddo i'r Cynulliad a'u dirprwyo i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

**I gloi**

9. Gwahoddir y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i roi eu sylwadau ar yr adroddiad.

**Cyswllt:** Graham Williams, y Prif Arolygydd, Ffôn 029 2082 3196